



# Ysgol Glan y Môr

Bwletin i Rieni: Chwefror 2020



## DYDDIADAU PWYSIG

### **Chwefror**

14 Ysgol yn cau—Gwyliau hanner tymor (17/02/20-21/02/20)

24 Ysgol yn ail gychwyn i bawb

### **Mawrth**

5 Cyfarfod Rhieni Dewisiadau BI 9

11 Tynnu lluniau BI 11

17 Noson Rieni BI 10

24 Clinic Cymorth

### **Ebrill**

1+2 Arholiad Llafar

Llenyddiaeth Gymraeg BI 11

3 Ysgol yn cau am y gwyliau Pasg (06/04/20-17/04/20)

20 Ysgol yn ail gychwyn i bawb

20-24 Arholiadau BI9

21-Mai 1 Profion darllen a rhifedd bl 7,8 a 9

### **Mai**

5 Clinic Cymorth

5 Arholiadau TGAU YN CYCHWYN

8 Calan Mai

12 Noson Rieni BI 9 3.45-5.45

22 Ysgol yn cau am hanner tymor (25/05/20-2/05/20)

**Sylwer bod dyddiad y Seremoni Ffeil Gynnydd wedi newid i 17/06/20**

## Llongyfarchiadau

Bu Cian Pritchard yn cystadlu yng nghystadleuaeth coginio'r Rotary Young Chef dydd Sadwrn, Chwefror yr 8fed yng Ngholeg Cambria. Daeth Cian yn gyntaf, mewn cystadleuaeth o safon uchel. Pob lwc i ti Cian yn y rownd nesaf, sydd yn Stratford yn mis Mawrth. Bu canmoliaeth uchel iddo ar baratoi prydau bwyd o safon uchel, a phroffesiynol iawn.



YSGOL GLAN Y MÔR  
PRIF DDERBYNFA / MAIN RECEPTION  
CROESO / WELCOME



## Llongyfarchiadau

**mawr** i Mr Guto Wyn ar ei benodiad diweddar yn Bennaeth newydd ar yr ysgol. Bydd Mr Wyn yn cychwyn ar ei waith fel Pennaeth ym Mis Medi 2020.

## Eisteddfod yr Urdd

Mae bwrlwm yn yr ysgol un-waith eto wrth i'r disgyblion baratoi am dymor eisteddfodau'r urdd. Mae'r disgyblion wrthi'n frwdfrydig yn ymarfer ar gyfer y sialens gyntaf sef yr Eisteddfod gylch a gynhelir yma yn yr ysgol, ar ddydd Sadwrn, Mawrth y 7fed. Bydd y parti bechgyn, Côr S.A. blwyddyn 7, 8 a 9 a'r Parti Cerdd Dant iau yn cystadlu bryd hynny.

Rhag hysbysiad - cynhelir Eisteddfod Sir dan 15eg ddydd Sadwrn, Mawrth 21ain. Gobeithio bydd cynrychiolaeth o'r cylch yn cystadlu yno.

Cynhelir Eisteddfod Sir dros 15eg yn Ysgol Dyffryn Ogwen Nos Wener, Mawrth 13eg. Bydd y côr merched hÿn a'r parti cerdd dant hÿn yn cystadlu yno.

Diolch i Mr Iwan Williams am ei waith caled yn paratoi'r disgyblion. Pob lwc i bawb sy'n cystadlu!

## Clinic Cymorth

Yn ystod y flwyddyn ysgol mae clinigau cymorth yn cael eu cynnal ar nosweithiau penodol. Mae'r noson yn gyfle i rieni a phlant gyfarfod gyda athrawon pwnc i drafod gwaith ysgol, neu unrhyw bryder arall, ac i gynnig cymorth.

Mae'r Clinic nesaf, Nos Fawrth 24ain o Fawrth. Ffoniwch y dderbynfa i wneud apwyntiad os ydych yn dymuno hynny.

## Her Mr Bleddyn Humphreys

Rydym newydd dderbyn cadarnhad yn yr ysgol y bydd Mr Bleddyn Humphreys yn mentro ar ras redeg go anarferol. Ar Orffennaf y 4ydd bydd Mr Humphreys yn ymgymryd â sialens i redeg 50 milltir yn Marathon Ultra Pen Llŷn. Ei obaith ydi llwyddo i gwblhau'r ras, a chodi arian ar gyfer prynu diffibriliwr (AED) ar gyfer yr ysgol. Rydym yn dymuno'r gorau iddo.

## Hyfforddiant Diffibrilwr

Ar Ionawr y 23ain bu criw St John Cymru draw yn yr ysgol yn cyflwyno cwrs ar sut i ddefnyddio'r diffibrilwr. Nôd y cwrs oedd hyfforddi'r disgyblion i fagu hyder ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar. Bu dros 60 o ddisgyblion blwyddyn 10 yn rhan o'r weithgaredd. Roedd yn gyfle arbennig iddynt feithrin mwy o ddealltwriaeth o'r offer, dysgu sut i barchu'r cyfarpar ac i allu ei ddefnyddio yn hyderus yn y gymund-ed pe bai angen.



## Addysg Gorfforol

Mae'r adran wedi bod yn hynod o brysur yn ystod mis Ionawr, bu criw yn cystadlu yn y twrnament trawsgwlad draw yn Nolgellau, ar Ionawr yr 22ain, gyda chanlyniadau arbennig er gwaetha'r mwd! Aeth criw bychan ymlaen i'r rownd nesaf ar dydd Mercher Chwefror y 5ed. Llongyfarchiadau i Abi Evans, Llinos Jones, Ashley Jones, Rhys Claybrook, a Cadi Williams. Llongyfarchiadau mawr iawn hefyd i Hari Annwyl Roberts blwyddyn 8 ar gael ei ddewis i gynrychioli Gogledd Cymru yn chwarae Pêl droed.



## Taith i Neuadd Dwyfor

Ar ddydd Iau, 6ed o Chwefror cafodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 9,10 ac 11 y cyfle i fynd i weld perfformiad o'r ddrama 'Llyfr Glas Nebo' yn Neuadd Dwyfor. Roedd hi'n brofiad gwych i'r disgyblion gael gweld y perfformiad dirdynol hwn gan Gwmni'r Frân Wen. Mae'r disgyblion yn astudio'r nofel yn eu gwersi Cymraeg.

## Eisteddfod Ysgol

Ar Ddydd Iau, 19eg o Ragfyr, 2019, cafwyd diwrnod fythgofiadwy yn yr ysgol. Diwrnod yr Eisteddfod flynyddol! Mi roedd hi'n chwip o 'Steddfod dda eto eleni, gyda phawb yn cymryd rhan o flwyddyn 7 i flwyddyn 11. Roedd safon y cystadlu'n uchel iawn - o waith cartref, i gystadlaethau cerdd ac adrodd, heb sôn am yr holl ddawnsio disgo a dawnio gwirion! Roedd y cyflwyniadau digri hefyd wedi gwneud i bawb chwerthin llond eu bolia! Braff oedd gweld Cai Pritchard o Flwyddyn 10 yn ennill y Gadair am ysgrifennu darn o farddoniaeth, a Hari Roberts o Flwyddyn 8 yn cipio Tlws Yr Ifanc. Gwylan gurodd eleni, gyda Tudwal yn ail ac Enlli yn drydydd. Ond roedd pawb o bob tŷ yn serennu ar y diwrnod! Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod cyffrous hwn, ac edrychwn ymlaen at yr un nesa!

## Dydd Miwsig Cymru

Bu'r disgyblion yn mwynhau'r cyfle i ddatlu dydd Miwsig Cymru ar y 7ed o Chwefror. Rhoddwyd sylw yn y gwersi i ganeuon Cymraeg er mwyn datlu'r diwrnod. Hefyd, roedd y Cyngor Iaith wedi trefnu gweithgareddau ar gyfer y prynhawn. Un o'r gweithgareddau hynny oedd cwis pop oedd wedi cael ei drefnu gan yr Urdd a Radio Cymru. Roedd cyfle i'r tîm buddugol gael mynd draw i stiwdio Radio Cymru ym Mangor. Yna ar ddiwedd y dydd, cynhaliwyd gig yn y Neuadd i ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 gyda'r band I Fight Lions yn perfformio. Ffordd wych o gloi diwrnod cerddorol iawn!

